



Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu?

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn un o bedwar tîm yng Nghymru sy'n gweithio i helpu i sicrhau bod cynigion am gyllid Ewropeaidd yn bodloni cyfleoedd a buddsoddiadau'r dyfodol ar lefelau rhanbarthol

Rydym yn gweithio ar draws siroedd Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ac ar draws yr holl sectorau yn y rhanbarth er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn cael cyfranogiad effeithiol ac yn cael llwyddiant.

Mae gwaith Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn cefnogi'r rhanbarth i gyflawni ei [strategaeth adfywio economaidd](#) er mwyn gwella rhagolygon ein cymunedau, ein busnesau a'n heconomi.

Os ydych yn ystyried gwneud cais am gyllid gan yr UE neu eich bod eisoes yn gweithredu prosiect gan yr UE, mae croeso ichi gysylltu â ni i gael arweiniad am y modd y gallai eich prosiect gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol, gan wneud cysylltiadau â phrosiectau eraill ac elwa ar astudiaethau achos ac esiamplau o arferion gorau.

Paratoi Cymru – Cronfeydd Strwythurol yr UE



Os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb na chyfnod pontio mae cyngor i fuddiolwyr prosiectau cyfredol a ariennir gan yr UE ar gael [yma](#)

Yr OECD i arwain prosiect newydd i economïau rhanbarthol yng Nghymru

Fel sefydliad sydd ar flaen y gad yn y maes, bydd yr OECD yn helpu i sicrhau y bydd Cymru yn elwa ar fodel rhanbarthol o ddatblygu'r economi yn y dyfodol a bod arferion da rhyngwladol yn rhan o'r model hwnnw. **Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)**

Dweud eich dweud ar Sgiliau..

Mae sgiliau a hyfforddiant yn feysydd allweddol sy'n effeithio ar ystod o arweinwyr busnes ar draws y rhanbarth a bydd 2019 yn flwyddyn pan fyddwn ni'n gweld newid sylweddol yn y dirwedd wleidyddol ac economaidd. Ni fu amser pwysicach i sicrhau bod gennym y sgiliau cywir yn y rhanbarth i ymdrin â'r newidiadau ar y gorwel.

Mae'r RLSP eisiau cyflawni cynllun Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer ein Rhanbarth sy'n addas i'r pwrpas, a fydd yn cwrdd ag anghenion cyflogwyr yn ogystal ag annog pobl i fanteisio ar y cyfleoedd a fydd ar gael yn y rhanbarth trwy'r Fargeniau Dinas a Thyfiant.

Cymerwch amser i gwblhau'r holiadur byr ar-lein sy'n canolbwyntio ar anghenion sgiliau eich bunses ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol ac fe'i defnyddir i hysbysu'r Cynllun Sgiliau yn unig.

Byddwch yn rhan o newid y tirlun sgiliau yn rhanbarth De Orllewin a Chanolbarth Cymru - rhowch eich barn trwy gwblhau'r [arolwg](#).

Cyllid gwerth €1.9m gan yr UE i gysylltu cymunedau yn Iwerddon a Chymru drwy straeon am y seintiau Celtaidd



Mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, wedi cyhoeddi prosiect newydd i ail-ddarganfod treftadaeth hudol y seintiau canoloesol cynnar, Dewi Sant a'i ddisgybl Sant Aidan.

Dan arweiniad Cyngor Sir Penfro, mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Wexford a Visit Wexford, bydd y prosiect trawsffiniol hwn yn rhoi hwb i dwf economaidd yn y ddau ranbarth drwy waith adfywio, prosiectau diwylliannol ac addysgiadol a mentora rhwng busnesau. Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Data Perfformiad Rhanbarthol

Mae'r tabl isod yn rhoi rhai o'r prif ffigyrau ar gyfer perfformiad gweithrediadau a ariennir gan yr ESI o fewn Rhanbarth y Bae Abertawe.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cymru'n elwa o gronfeydd yr UE [yma](#).

Dangosydd Perfformiad	Figures for the South West Region
Mentrau a Gynorthwywyd ¹	1,680
Mentrau a Grëwyd ²	414
Swyddi a Grëwyd ³	3,195
Cyfranogwyr a Gynorthwywyd	46,494
Cyfranogwyr a Gefnogwyd I Gyflogaeth	3,577
Cyfranogwyr a Enillodd Gymwysterau	17,517
Cefranogwyr Mewn Addusg / Hyfforddiant	2,004

Ffynhonnell: SCEC, 28/02/2019

¹ Cyfanswm y Mentrau sy'n derbyn dangosyddion cymorth anariannol o dan Raglenni Gweithredol ERDF

² Cyfanswm y dangosyddion a gefnogir gan fentrau newydd o dan Raglenni Gweithredol ERDF

³ Cyfanswm y cynnydd Cyflogaeth mewn dangosyddion mentrau â chymorth o dan Raglenni Gweithredol ERDF



Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol
De-Orllewin a Canolbarth Cymru

Gofynwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd newydd ar gyfer PDSR

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer sefyllfa cadeirydd y Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (PDSR), partneriaeth sy'n gyrru newid yn y maes sgiliau ar draws De Orllewin a Chanolbarth Cymru. Gofynnir am ymgeisydd sector breifat brwdfrydig, i gynrychioli cyflogwyr o ar draws y rhanbarth yng nghyfarfodydd PDSR, gweithio gyda chadeirydd y ddwy Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol arall yng Nghymru a gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Gweision Sifil.

Mae'r PDSR hefyd yn arwain ar Ymyrraeth Sgiliau a Thalent, un o'r 11 prosiect sy'n ffurfio Y Bargen Ddinas Bae Abertawe ac yn y dyfodol fyddwn yn gweithio gyda Fargen Twf Canolbarth Cymru wrth iddo symud ymlaen.

Rôl Bwrdd y Partneriaeth Dysgu a Sgiliau yw:

- gwella casgliad a rhannu data a gwybodaeth ynglyn a cyflogaeth a sgiliau
- nodi anghenion busnesau a'r gweithlu presennol a'r dyfodol yn y rhanbarth
- cynhyrchu Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau
- sicrhau bod y seilwaith dysgu a sgiliau yn diwallu anghenion economaidd a chymdeithasol y rhanbarth

Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano mewn cadeirydd;

- Gwybodaeth a phrofiad yn unrhyw un o'r sectorau diwydiant cysylltiedig (Deunyddiau Uwch, Gweithgynhyrchu, Ynni, Adeiladu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Hamdden a Thwristiaeth, Bwyd a Ffermio, Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol neu Ddiwydiannau Creadigol).
- Profiad cryf yn y sector preifat
- Ethos arweinyddiaeth a phartneriaeth gref
- Dangos dealltwriaeth o'r amgylchedd strategol ehangach a rhoi ystyriaeth i hyn wrth wneud argymhellion
- Y gallu i gyfleu negeseuon cymhleth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys Llywodraeth Cymru.
- Profiad o gadeirio partneriaeth amrywiol a chyfarfod lefel uchel sy'n cynnwys ystod o bartneriaid allanol.

Mae'r swydd yn swydd wirfoddol gydag ymrwymiad bras o 12 diwrnod y flwyddyn.

Y Broses Dethol

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 24 Ebrill 2019

Cyfarfod y Panel a phenderfyniad: Mai 2019

Cyfarfod cyntaf: 16 Mai 2019

Am ragor o wybodaeth neu i ymgeisio

Cysylltwch â Jane Lewis ar 01554 742431 neu anfonwch CV at jelewis@sirgar.gov.uk

Ffowndri Gyfrifiadurol newydd ei hagog i bweru'r economi ddigidol



Agorodd Prifysgol Abertawe drysau'r Ffowndri Gyfrifiadurol ar Gampws y Bae yn swyddogol ar Dydd Llun 4 Chwefror.

Mae'r cyfleuster newydd yn argoeli i fod yn ganolbwynt ar gyfer meddwl yn gyfrifiadurol ac yn fathemategol. Bydd yn tynnu ymchwilwyr a chydweithredwyr dawnus ynghyd â'r diwydiant a defnyddwyr ymchwil i greu incwm ymchwil sylweddol, ac yn helpu i greu swyddi a chyfleoedd economaidd yn y rhanbarth.

Gweledigaeth y Brifysgol yw meithrin a thyfu cymuned ymroddedig o wyddonwyr cyfrifiadurol a mathemategol sy'n cynnal ymchwil drawsffurfiol ac sy'n credu bod gwyddor gyfrifiadurol well yn hanfodol wrth adeiladu byd blaengar: yn gymdeithasol, yn economaidd, yn ddiwylliannol, yn athronyddol ac yn ddeallusol.

Bydd y Ffowndri, a gefnogir gan £17m o'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, yn ysgogi ymchwil wyddonol gyfrifiadurol a mathemategol, i helpu i wneud Cymru'n gyrchfan byd-eang i wyddonwyr cyfrifiadurol.

Bydd y Ffowndri hefyd yn ceisio cysylltu ymchwilwyr â phartneriaid cydweithredol i ddatblygu a phrofi syniadau, i lunio cynigion ymchwil ar raddfa fawr a ariennir gan gyllidwyr preifat a chyhoeddus. Wrth i ganlyniadau godi o brosiectau o'r fath, caiff y gwaith ymchwil ei droi'n effaith ar y gymdeithas a'r economi. Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Sefydliad Ymchwil Peirianeg gwerth £35 Miliwn ar fin cael ei gwblhau

Mae'r brics olaf wedi cael eu gosod yn eu lle ar gyfer Sefydliad Ymchwil peirianeg newydd ar Gampws y Bae, Prifysgol Abertawe. Cynhaliwyd seremoni arbennig i nodi cam terfynol tuag at gwblhau'r cyfleuster £35 miliwn sydd â'r cyfleusterau diweddaraf, ac sy'n arbenigo mewn technolegau rhifyddol, prosesu a deunyddiau newydd.

Mae'r Sefydliad Arloesol ym maes Deunyddiau, Prosesu a Thechnolegau Rhifyddol (IMPACT) yn hwyluso ehangu pellach yng Ngholeg Peirianeg y Brifysgol, a bydd yn darparu gwaith ymchwil hanfodol, cydweithredol i gefnogi'r diwydiant peirianeg ar lefel leol a byd-eang.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth hon yn cael ei hariannu'n rhannol gan Brifysgol Abertawe, gyda £17.4 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) trwy Lywodraeth Cymru. Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol (AEMRI)



Jane (ail dde)

Cafodd Grŵp Tipper ei lansio gan griw o beiriannwyr yn TWI Ltd, y Sefydliad Weldio a Chanolfan Genedlaethol Uniondeb Strwythurol (NSIRC) yn hydref 2016. Cafodd ei enwi ar ôl menyw o'r enw Constance Tipper, peiriannydd a astudiai holltau mewn metel a raddiodd o Brifysgol Caergrawnt. Fe wnaeth hi ymchwilio i fethiannau llongau cargo dosbarth Liberty yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bydd Grŵp Tipper yn cynnal digwyddiadau ac yn cynnig cyfleoedd i rwydweithio i gefnogi amrywiaeth ym maes weldio ac uno metelau a thechnolegau cysylltiedig, er mwyn cynnig ysbrydoliaeth, cymorth a datblygiad proffesiynol.

Sefydliad Ymchwil Peirianeg a Deunyddiau Uwch (AEMRI) - gyfleuster archwilio a dilysu gwaith peirianeg o'r radd flaenaf a leolir yn TWI Cymru ym Mhort Talbot. Mae'n yn isadran arbenigol o grŵp TWI, a chaiff ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy law Llywodraeth Cymru.

Yn ddiweddar, fe wnaeth Jane Allwright, un o gyflogeion AEMRI, gwblhau cwrs gwerthfawrogi weldio 2 ddiwrnod yn safle TWI Caergrawnt, yn Ionawr 2019. Cafodd y digwyddiad ei drefnu trwy law Grŵp Tipper TWI, yn benodol i annog amrywiaeth ym maes peirianeg.

Yn flaenorol, fe wnaeth Jane astudio mathemateg am bedair blynedd ym Mhrifysgol Caergrawnt. Symudodd hi i Gymru yn 2016, ac mae hi'n mwynhau diwylliant Cymru yn fawr - a dweud y gwir, mae hi'n mwynhau hynny cymaint, mae hi'n dysgu'r iaith Gymraeg. Mae ei gweithgareddau presennol yn TWI o dan raglen AEMRI yn cynnwys dadansoddi elfennau cyfyngedig (FEA) ar gyfer amrywiaeth o brosiectau a diwydiannau - yn enwedig modelu tonnau a gyfeirir gan amleddau uwchsonig mewn pibellau ac adeileddau eraill, modelu profion uwchsonig yn fwy cyffredinol, a'r defnydd o fathemateg fel rhan o ymchwil a datblygu ym maes profi anninistriol (NDT).

Wrth ddisgrifio ei phrofiad, dywedodd Jane, "Fel arfer, byddaf yn ymdrin ag ochr ddamcaniaethol technoleg, ond mae mynychu'r gweithdy gwerthfawrogi weldio hwn wedi sicrhau fy mod i'n deall yn llawer iawn gwell sut mae weldio'n digwydd mewn gwirionedd. Yn ystod dau ddiwrnod y cwrs, fe wnaethom ni ddysgu am y gwahanol fathau o weldio: weldio arc metel â llaw (MMA), weldio arc metel ag amddiffyniad nwy (MAG) a weldio arc twngsten ag amddiffyniad nwy (TIG). Roedd yr hyfforddwyr yn wych, a dysgais lawer iawn am y technegau a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Ni fyddwn ni wedi dysgu hynny trwy astudio'r theori yn unig. Mae hyn wedi fy helpu i ddeall y mathau o ddiffygion a all ddigwydd yn y broses weldio, a bydd hynny'n ddefnyddiol yn fy ngwaith ynghylch NDT ac yn fy efelychiadau hefyd.

Roedd y gweithdy yn gyfle gwych i mi, ac rwy'n gobeithio y gwnaiff digwyddiadau fel hyn annog rhagor o bobl - dynion a merched - mathemategwyr, gwyddonwyr a pheiriannwyr - i roi cynnig ar rywbeth nad ydynt erioed wedi ystyried ei wneud, mae'n debyg."

Roedd yr hyfforddiant hwn hefyd yn dangos sut mae TWI yn barod i gefnogi ac annog rhagor o amrywiaeth ym maes peirianeg, ac ar yr un pryd, cynnig cipolwg go iawn ar y sgiliau sy'n ofynnol i weldwyr. Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy law Llywodraeth Cymru.

Cymru'n Gweithio

Rhyddhaodd Ken Skates AC, Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ddatganiad ysgrifenedig ar 8 Mawrth 2019 yn cyhoeddi lansiad gwasanaeth cyngor newydd Cymru'n Gweithio ar 1 Mai 2019

"Fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Cyflogadwyedd, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018, mae gwasanaeth newydd i roi cyngor ar gyflogaeth wrthi'n cael ei ddatblygu. Ar adeg o ansicrwydd i economi Cymru, bydd yn ffordd allweddol o sicrhau bod cymorth cyflogadwyedd ar gael yn haws ac yn gynt i unigolion ym mhob cwr o Gymru.

Yn rhinwedd fy swydd fel Gweinidog, byddaf yn lansio gwasanaeth newydd Cymru'n Gweithio ar 1 Mai 2019.

Bydd Cymru'n Gweithio (y Porth Cyngor Cyflogaeth fel y'i gelwid gynt) yn cael ei ddarparu gan Gyrrfa Cymru a bydd yn wasanaeth y gall pobl ledled Cymru droi ato i gael cymorth cyflogaeth."

Darllenwch y datganiad llawn [yma](#)

Hwb ariannol yr UE ar gyfer Cynnydd

Mae Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit Jeremy Miles wedi croesawu cyllid newydd gan yr UE i estyn cynllun sy'n rhoi hwb i ragolygon miloedd o bobl ifanc ledled De-orllewin Cymru.

Mae prosiect Cynnydd, sy'n caei ei arwain gan Gyngor Sir Penfro, ac sydd hefyd ar waith ar draws Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, wedi cael £11.5m yn ychwanegol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda Gyrrfa Cymru, Colegau AB a chwmnïau'r sector preifat a'r trydydd sector, i helpu pobl ifanc i mewn i waith trwy gyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith, tra'n cynnig mentora, coetsio a chwmsela un-i-un i wella sgiliau bywyd a hunan-barch.

Heddiw, cyhoeddodd Jeremy Miles y bydd Cynnydd, a lansiwyd ym mis Medi 2016, bellach yn rhedeg tan fis Rhagfyr 2022 a hynny oherwydd y cyllid ychwanegol gan yr UE. Mae hyn yn golygu y bydd 3,200 o bobl ifanc yn elwa ar y cymorth a'r cyfleoedd sy'n cael eu creu gan y prosiect dros y tair blynedd nesaf, a 7,500 i gyd.



Mae [Nodyn Technegol](#) wedi'i gyhoeddi gan lywodraeth y DU i roi arweiniad i sefydliadau ac unigolion am gyfranogiad disgwylid y DU yn rhaglen bresennol Erasmus+ (2014-2020) os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb mewn lle.

Mae buddiolwyr presennol a darpar ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddarllen y Nodyn Technegol, am drosolwg o'r goblygiadau posibl ac unrhyw gamau gweithredu y bydd angen iddynt eu cymryd o bosibl.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Alwad am Gynigion 2019

Cyfleoedd ariannu sydd ar gael i sefydliadau addysg a ieuencid y Deyrnas Unedig drwy'r rhaglen, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi dogfennau galw am raglen 2019. Mae'r Alwad am Gynigion 2019 yn rhoi trosolwg o'r rhaglen Erasmus+, ac mae [Canllaw y Rhaglen](#) yn cynnwys gwybodaeth fanwl am sut i ymgeisio. Mae dyddiadau cau 2019 yn yr Alwad am Gynigion ac wedi'u rhestru ar y [Dyddiadau Cau Ariannu](#)



Bydd galwad rhif 9 y rhaglen Interreg Gogledd-orllewin Ewrop yn dod i ben ar **14 Mehefin 2019**

Bydd yr alwad ar agor i blaenoriaeth 1 a blaenoriaeth 3. Mae gan bob un o'r blaenoriaethau hyn un amcan benodol. Gan hynny mae partneriaethau trawswladol yn cael eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau prosiect o dan un o'r blaenoriaethau hyn.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Caiff y rhaglen hon ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru o dan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Mae'r cyfleoedd cyllid cynllun RDG canlynol bellach ar agor

Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

Ffenestr Mynegi Diddordeb yn agor ar 4 Mawrth 2019

Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - BWYD (RBISF) yn buddsoddi cyfalaf i helpu prosiectau sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cael helpu cwmnïau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod micro a bach, hen a newydd ledled Cymru.

Mae'n buddsoddi cyfalaf mewn gweithgareddau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod nad yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn cael eu helpu.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cronfa Fusnes Micro Bychan (MSBF)

Mae'r Gronfa Busnesau Micro a Bychan (MSBF) yn gronfa fuddsoddi sy'n targedu prosiectau buddsoddi cyfalaf cymwys yn y sector Twristiaeth yng Nghymru. Gellir ei defnyddio naill ai i greu cynnyrch newydd o safon uchel neu i ddiweddarau cynnyrch presennol.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Grant Busnes i Ffermydd

Ffenestr Mynegi Diddordeb ar agor

Nod y Grant Busnes i Ffermydd (FBG) yw helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol.

Mae'r grant yn cyfrannu tuag at fuddsoddiadau cyfalaf mewn offer a pheiriannau sydd wedi'u nodi ymlaen llaw fel rhai sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i fentrau ffermydd.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren

Mae'r cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren yn rhoi cyllid ar gyfer buddsoddi cyfalaf sy'n ychwanegu at werth coedwigoedd drwy gynnal gweithgareddau rheoli coetir, cynaeafu pren a/neu brosesu pren.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,

Business Resource Centre,

Ty Parcyrhun,

Ammanford.

SA18 3EP

01554 742473 / swanseabayret@carmarthenshire.gov.uk

